Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Gweithdrefn Darpariaeth Ar-lein

2025/26

**Cynnwys**

1 Diben y Polisi hwn ........ 2
2 Cwmpas ........ 2
3 Nodweddion a Strwythur y Ddarpariaeth ........ 2
4 Cymorth i Fyfyrwyr ........ 3
5 Gweithdrefnau ........ 3
6 Asesiad ........ 4
7 Llywodraethu ........ 4
8 Rolau a Chyfrifoldebau ........ 4
9 Hygyrchedd ........ 5

## 1 Diben y Polisi hwn

1.1 Diben y polisi hwn yw amlinellu'r gweithdrefnau a'r prosesau sydd yn eu lle sy'n rheoli darpariaeth ar-lein Prifysgol Wrecsam (rhaglenni sy'n cael eu darparu'n gyfan gwbl ar-lein).

## 2 Cwmpas

2.1 Mae'r polisi hwn yn cwmpasu rhaglenni ar-lein yn unig a dylid ei ddarllen ar y cyd â Rheoliadau Academaidd Prifysgol Wrecsam. Oherwydd natur y rhaglenni, mae addasiadau i'r ffordd maent yn cael eu darparu, eu rheoli'n weithredol a'r gefnogaeth i fyfyrwyr wedi'u haddasu er mwyn cefnogi natur y rhaglenni mewn ffordd well.

2.2 Disgwylir i raglenni ar-lein gadw at Reoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau Prifysgol Wrecsam, a lle mae disgwyliadau yn eu lle, mae'r rhain wedi'u hamlinellu o fewn y ddogfen weithredol hon.

## 3 Nodweddion a Strwythur y Ddarpariaeth

3.1 Mae darpariaethau ar-lein ym Mhrifysgol Wrecsam yn cael eu cyflenwi'n gyson ar draws y maes pwnc gydag ychydig o eithriadau. Mae nodweddion cyflenwi'r ddarpariaeth fel a ganlyn:

- Mae rhaglenni'n cael eu cyflenwi ar lefel cyrsiau ôl-raddedig sy'n cael eu dysgu ac maent i gyd yn rhan amser.
- Mae rhaglenni yn 48 mis o ran hyd.
- Gall myfyrwyr wneud cais am estyniad, a all fod yn 12 mis o ran mwyafswm.
- Mae gan raglenni chwe phwynt derbyn bob blwyddyn academaidd (Ionawr, Mawrth, Mai, Mehefin, Medi, Tachwedd).
- Cynhelir Byrddau Modiwl a Byrddau Dyfarnu a Chynnydd bob dau fis (Chwefror, Ebrill, Mehefin, Awst, Hydref, Rhagfyr).
- Mae myfyrwyr yn talu wrth iddynt fynd yn eu blaenau, fodd bynnag mae yna opsiwn i ddewis talu'r ffi lawn ymlaen llaw.

3.2 Mae pob rhaglen yn gweithredu model carwsél sy'n galluogi myfyrwyr i 'neidio arno' a 'neidio oddi arno' wrth iddynt symud ymlaen drwy'r rhaglen. Fodd bynnag, er mwyn cwblhau'r rhaglen ac ennill y dyfarniad terfynol mae'n rhaid i fyfyrwyr gwblhau'r rhaglen o fewn 48 mis.

3.3 At bwrpasau gweinyddol mae rhaglenni'n cynnwys blociau dysgu (T) a blociau traethawd hir (D):

- Mae T1 - T8 yn cynnwys y modiwlau craidd ac yn cael eu rhedeg mewn dilyniant.
- Mae T9 yn galluogi myfyrwyr i gwblhau unrhyw fodiwlau craidd y maent wedi'u colli'n flaenorol. Os yw myfyriwr yn gohirio neu'n colli modiwl yna caiff ei ychwanegu at floc T9.
- Mae D1 - D3 yn cynnwys y modiwlau traethawd hir ac mae'n rhaid iddynt redeg mewn dilyniant.

- Mae D4 yn floc daliad ar gyfer cyfnod rhwng pan mae myfyriwr yn cwblhau eu traethawd hir ac yn aros am i'w dyfarniad gael ei gadarnhau gan Fwrdd Dyfarnu / Cynnydd.

Nodwch: mae'n bosib y gall fod amrywiadau wedi'u cytuno arnynt ynghylch sut mae'r blociau'n cael eu defnyddio mewn rhai meysydd pwnc; mae'r uchod yn darparu enghraifft ddangosol o sut mae'r blociau'n gweithio yn y rhan fwyaf o achosion.

3.4 Ystyrir cynnydd myfyrwyr gan y tîm gweinyddol ar ddiwedd bob bloc, sy'n penderfynu p'un a ydynt wedi bodloni'r meini prawf pasio a symud ymlaen i'r bloc nesaf.

## 4 Cymorth i Fyfyrwyr

4.1 Estyniad i geisiadau cofrestru - Gall myfyrwyr wneud cais am estyniad o 12 mis hyd at y mwyafswm cyfnod cofrestru drwy gyflwyno Cais Estyniad gyda thystiolaeth gefnogol i'r Arweinydd Rhaglen ar gyfer ei gymeradwyo.

4.2 Nid yw Cydlynwyr Llwyddiant Myfyrwyr yn gyflogedig gan y Brifysgol; ymgymerir â'r rôl gan bartneriaid darpariaeth ar-lein ac maent yn eu lle er mwyn iddynt allu cael sgwrs gyda myfyrwyr a sicrhau eu bod yn aros ar y trywydd cywir, ac maent yn ganolbwynt ar gyfer ymholiadau cychwynnol. Caiff y myfyrwyr eu cefnogi gan y rôl hon yn ogystal â'r Tiwtoriaid Rhaglen a Modiwl. Nid yw Tiwtoriaid Personol yn eu lle ar gyfer y ddarpariaeth hon ond maent yn cael eu cefnogi drwy'r rolau a grybwyllwyd eisoes.

## 5 Gweithdrefnau

5.1 **Monitro cynnydd myfyrwyr** - Mae taith pob myfyriwr yn cael ei fonitro'n unigol drwy'r Swyddfa Partneriaethau, sy'n olrhain cofrestriad a chynnydd myfyrwyr, gan gynnwys unrhyw 'seibiannau etholedig' mae myfyriwr wedi eu cymryd. Mae hyn yn galluogi'r Brifysgol a'i bartneriaid darpariaeth ar-lein i sicrhau bod myfyrwyr yn aros ar y trywydd cywir er mwyn cwblhau eu rhaglen o fewn 48 mis. Mae'r system sydd yn ei lle'n cyfrifo dyddiad chychwyn a dyddiad gorffen disgwyliedig yn seiliedig ar drywydd, wrth i'r myfyriwr symud yn ei flaen neu gymryd seibiant bydd y system yn newid eu dyddiad gorffen disgwyliedig yn unol â hynny. Mae hyn yn cynorthwyo'r Swyddfa Partneriaethau a'r tîm o fewn y partner darpariaeth ar-lein i wneud cyfraniad lle mae'n angenrheidiol er mwyn cefnogi'r myfyrwyr.

5.2 **Ataliad Gorfodol** - Lle mae myfyriwr yn methu â gwneud cynnydd gan golli tri modiwl yn olynol bydd y Swyddog Data Partneriaeth yn prosesu ataliad gorfodol. Hysbysir y myfyriwr ac Adran Cyllid Myfyrwyr y Brifysgol o'r ataliad gorfodol er mwyn cyflwyno unrhyw Newid Mewn Amgylchiadau.

5.3 **Tynnu'n ôl Gorfodol** - lle mae myfyriwr yn methu â gwneud cynnydd gan golli pedwar mis yn ddilynol bydd y broses a amlinellir ym mharagraff 5.4 yn cael ei dilyn. Byddant yn gadael gyda nifer y credydau maent wedi'u cwblhau ar adeg tynnu'n ôl. Os oes ganddynt ddigon o gredydau mae'n bosib y gallant fod yn gymwys ar gyfer dyfarniad ymadael (gweler Rheoliadau Academaidd Cyffredinol, adran H2).

5.4 Cyn i dynnu'n ôl gorfodol gael ei roi ar waith bydd y partner darpariaeth ar-lein yn cysylltu gyda'r myfyriwr dan sylw bedair gwaith dros gyfnod o fis (dwy waith dros y ffôn a dwy waith dros e-bost). Os nad yw myfyriwr yn ymgysylltu yn dilyn yr ymdrechion hyn i ymyrryd neu nad yw'n ymateb i'r ymdrechion i gysylltu, bydd y Swyddfa Partneriaethau yn ceisio sicrhau cymeradwyaeth drwy'r Arweinydd Rhaglen perthnasol er mwyn prosesu'r tynnu'n ôl gorfodol oherwydd diffyg ymgysylltu.

## 6 Asesiad

6.1 Gall profion yn y dosbarth ar gyfer rhaglenni ar-lein ddisgyn o fewn yr wythnosau arholi oherwydd y model carwsél a chwe phwynt derbyn.

6.2 Bydd ailasesiadau'n cael eu cynnal yn ôl y galw a phenderfynir ar hyn gan yr Arweinydd Rhaglen neu'r sawl a enwebir ganddynt. Yn dilyn cwblhau'r ailasesiad caiff ei ystyried ar gyfer y Bwrdd nesaf sydd wedi'i drefnu.

## 7 Llywodraethu

7.1 Mae'r Swyddfa Partneriaethau'n rheoli cyfarfod misol rhyngddynt eu hunain, yr Arweinwyr Rhaglen a'i bartner darpariaeth ar-lein er mwyn cefnogi rheoli darpariaeth ar-lein.

## 8 Rolau a Chyfrifoldebau

| Rôl | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| Tîm Academaidd | • Asesu.<br>• Ail-eistedd. |
| Tîm Asesiadau a Dyfarniadau | • Byrddau Modiwlau.<br>• Byrddau Cynnydd a Dyfarnu. |
| Partner darpariaeth ar-lein | • Marchnata'r rhaglenni.<br>• Archebu lle ac olrhain myfyrwyr.<br>• Ymyrraeth myfyriwr - estyn allan i fyfyrwyr er mwyn eu cynorthwyo i aros ar y trywydd er mwyn cwblhau eu rhaglen o fewn hyd y rhaglen a ddilyswyd.<br>• Cydlynwyr Llwyddiant Myfyrwyr. |
| Swyddfa Partneriaethau | • Cofrestriad ac olrhain cynnydd.<br>• Anfonebu.<br>• Cymeradwyo ceisiadau ataliad gorfodol a thynnu'n ôl gorfodol. |
| Arweinwyr Rhaglenni | • Goruchwylio darparu rhaglen<br>• Darparu cymorth a hyfforddiant i Ddarlithwyr Sesiynol a Thiwtoriaid Modiwlau. |

## 9 Hygyrchedd

9.1 Mae Prifysgol Wrecsam yn ymdrechu i fod yn brifysgol gefnogol sy'n ystyriol o drawma o ran dyluniad a gweithrediad ein holl brosesau a gweithdrefnau. Os oes angen addasiadau arnoch i gael mynediad i'r weithdrefn hon, neu os oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ynghylch hygyrchedd, geiriad neu unrhyw ran o'r weithdrefn hon, anfonwch e-bost atom drwy quality@wrexham.ac.uk.